**BIDIAU REFENIW PARHAOL 2020/21**

| | Teitl y Bid | Manylion y Bid | Swm a Argymhellir (£) |
|---|---|---|---|
| | **ADDYSG** | | |
| Bid 1 | Cludiant Tacsis Ysgolion | Cytundebau diweddaraf ar sail 187 diwrnod (nifer dyddiau blwyddyn gyllidol 2020/21) yn dangos gwariant o £2.474m, yn erbyn cyllideb o £2.164m – diffyg o £310k. Mae’r gorwariant yn gysylltiedig â diffyg o £150k yn bid a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2019/20 (cyflwynwyd bid o £550k a derbyniwyd £400k). Noder fod y gyllideb hefyd wedi gostwng £170k yn barhaol ers 2019/20 o ganlyniad i ail-dendro cytundebau yn Ebrill 2019. | 150,000 |
| Bid 2 | Cludiant Bysus Ysgolion | Mae'r Adran Amgylchedd yn cynnal adolygiad strategol o'r gwasanaeth cludiant cyhoeddus a fydd yn asesu a blaenoriaethu'r gwasanaethau pwysicaf. Rhagolygon diweddaraf yn dangos gorwariant o £39k ar y gyllideb 'Bysus Ysgolion' sydd yn cynnwys bid un tro o £145k yn 2019/20. Mae'r cais hwn felly yn gofyn am £184k ar sail y sefyllfa waethaf. | 184,000 |
| | **PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** | | |
| Bid 3 | Lleoliadau Plant Mewn Gofal | Cynnydd yn y nifer o leoliadau maeth efo teulu, galw am leoliadau maeth drwy asiant oherwydd diffyg capasati mewnol ac achosion dwys a chymleth sy'n gwneud lleoliad preswyl allsirol yn annorfod. Ariannu - Lleoliadau allsirol £1.030m, Lleoliadau Maethu Asiant £300k a Lleoliadau Maethu Mewnol £450k. | 1,780,000 |
| Bid 4 | Gwasanaeth Cefnogol Plant | Mae’r gwasanaeth Cefnogol yn darparu gwasanaeth goruchwylio cyswllt rhwng plant mewn gofal a’u rhieni. Mae hybu cyswllt yn gyfrifoldeb statudol. Gan fod nifer plant mewn gofal wedi cynyddu’n raddol dros amser, law yn llaw a hynny mae’r nifer trefniadau cyswllt dan oruchwyliaeth hefyd wedi cynyddu. Ariannu 2 Swyddog Cefnogol a chostau teithio. | 55,000 |
| | **TAI AC EIDDO** | | |
| Bid 5 | Gwasanaethau Digartrefedd | Cyngor yn derbyn grant gan Lywodraeth Cymru i ariannu tri chynllun allweddol i'r gwasanaeth digartrefedd. Ers 2015/16 mae'r Llywodraeth wedi peidio ag ychwanegu chwyddiant blynyddol at y swm a ddyrennir i'r Cyngor felly mae hyn wedi creu diffyg yn y gyllideb. | 57,560 |
| Bid 6 | Llety dros dro | Yn dilyn newidiadau yn Neddf Tai (Cymru) 2014, mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol roi cymorth i unrhyw berson digartref. Mae hyn wedi creu mwy o alw a'r gwasanaeth yn ceisio ymdopi gyda chynnig gwasanaeth i 36% yn ychwanegol ers i'r ddeddf ddod i rym. | 265,000 |

| | **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | |
|---|---|---|---|
| Bid 7 | Llety Cefnogol - Anabledd Dysgu | Mae angen yr unigolion yr ydym yn eu cefnogi yn mynd yn fwy cymhleth, gyda nifer uwch o unigolion yn derbyn cefnogaeth yng Ngwynedd. Mae'r niferoedd sydd yn byw mewn tŷ a chefnogaeth wedi cynyddu ac mae hyn wedi arwain at orwariant yn y gwasanaeth Anabledd Dysgu yn ystod 2019/20 ac rydym yn rhagweld cynnydd eto dros y blynyddoedd nesaf. | 877,220 |
| Bid 8 | Oed Trosglwyddo: Oedolion ifanc Anableddau Dysgu | Bydd 11 unigolyn sydd wedi derbyn gwasanaeth gan yr Adran Plant a Theuluoedd yn cychwyn derbyn gwasanaeth gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ystod 2020/21. Bydd angen cwrdd ag anghenion yr unigolion a'u teuluoedd yn unol â'r asesiad anghenion, er mwyn cwrdd ac allbynnau llesiant penodol. | 389,200 |
| Bid 9 | Darparwr annibynnol yn ildio cytundebau hanesyddol Tai a Chefnogaeth ar y sail nad ydynt mwyach yn gynaliadwy iddynt | Yn y maes Tai a Chefnogaeth, rydym yn comisiynu cwmniau o fewn y sector annibynnol i gefnogi ein trigolion sydd ag Anableddau Dysgu. Un o'r prif gwmniau anibynnol sy'n cael eu defnyddio ydi Allied Healthcare. Mae'r cwmni yma yn ddiweddar wedi mynd trwy broses CVA (Company Voluntary Arrangement) ac mae'r cwmni wedi nodi nad ydi 3 o'r cytundebau sydd gennym efo'r cwmni yn gynaliadwy ar sail y gost uned sy'n cael ei dalu ar hyn o bryd. Felly, roedd rhaid ail-dendro am y tri cytundeb. Mae rhain bellach wedi eu derbyn yn ôl ac mae costau ychwanegol o ddarparu'r gwasanaeth. Roedd cost cynnal y gefnogaeth yn y tri tŷ dan sylw yn £283k o dan yr hen gost uned. Yn dilyn y broses tendro, bydd y gost yn £393k. Bydd y bid o £110k felly yn ariannu'r diffyg yma, ac yn caniatau i'r gwasanaeth barhau i gynnal gwasanaeth o safon uchel i unigolion efo Anableddau Dysgu yn unol a'u asesiad anghenion. | 110,410 |
| Bid 10 | Cyfarch anghenion staffio gofal mwy dwys yng Nghartref Preswyl Hafod Mawddach a Chefn Rodyn | Darparu gofal mwy dwys mewn 2 o gartrefi preswyl y Cyngor, sef Cefn Rodyn ac Hafod Mawddach. Yr amcan sydd gan y gwasanaeth yw datblygu gwasanaethau fydd yn hybu bywyd y defnyddwyr, cefnogi eu gofal cymleth ac hybu annibyniaeth. | 395,300 |
| Bid 11 | Costau Gofal Cartrefi Preswyl a Nyrsio Preifat | Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor drefniant ffi safonol o ran lleoli unigolion mewn cartrefi preswyl a nyrsio preifat. Mae nifer cynyddol o gartrefi yn gwrthod ffi safonol y Cyngor gan nodi nad yw'n ddigonol, ac yn mynnu pris uwch am y lleoliad.Os nad yw'r Cyngor yn gallu canfod lleoliad arall sy'n addas i'r unigolyn o fewn ffi safonol y Cyngor, ni fydd dewis ond talu'r ffi y mae'r cartref yn ei fynnu. | 73,000 |
| | **CYFANSWM BIDIAU REFENIW** | | **4,336,690** |